

**CAIS AM DRWYDDED  
BANERI/FFLAGIAU/ADDURNIADAU/  
CEBLAU/RHEILIAU/TRAWSTIAU**

*Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 178*



**APPLICATION FOR  
BANNERS/BUNTING/FLAGS/DECORATIONS  
/CABLES/RAILS/BEAMS**

*Highways Act 1980 – Section 178*

<b>Baneri/Fflagiau</b>		<b>Banners/Bunting/Flags</b>
<b>Addurniadau</b>		<b>Decorations</b>
<b>Ceblau/Rheiliau/Trawstiau</b>		<b>Cables/Rails/Beams</b>

**Manylion yr Ymgeisydd / Applicant Details**

Enw Llawn		<i>Full Name</i>
Ar ran (Sefydliad)		<i>On behalf of (Organisation)</i>
Cyfeiriad e-bost		<i>E-mail address</i>
Cyfeiriad Llawn		<i>Full Address</i>
Cod Post		<i>Post Code</i>

**Manylion Cyswllt Mewn Argyfwng / Emergency Contact Details**

Rhif Ffôn		<i>Telephone Number</i>
-----------	--	-------------------------

**Manylion y Contractwr/Contractor Details**

Enw'r Cwmni		<i>Company Name</i>
Rhif Ffôn		<i>Telephone Number</i>
Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus (Ileiafswm o £10 miliwn) <b>Rhif polisi :</b> Bydd angen atodi copi o'ch Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus os nad ydym wedi ei dderbyn yn flaenorol.		<i>Public Liability Insurance (minimum of £10 million) <b>Policy Number :</b> You will need to attach a copy of your Public Liability Insurance if we have not previously received it.</i>

**Lleoliad y cyfarpar**  
(Atodwch map anodedig lliw neu lun yn dangos yr union lleoliad)  
**Proposed Location of apparatus**  
(Attach an annotated coloured map or photograph showing the exact location)

Rhif / Enw Tŷ		<i>House Name / Number</i>
Enw Stryd		<i>Street Name</i>
Pentref / Tref		<i>Village / Town</i>
Cod Post		<i>Post Code</i>
Dyddiad o		<i>Date from</i>
Dyddiad i		<i>Date to</i>
Disgrifiad byr o'r gwaith		<i>Brief description of works</i>

**Amodau Safonol / Standard Conditions**

<p><b>1. Ffi na ellir ei had-dalu</b> (i) £153.00 (bob wythnos)</p> <p><b>Dulliau Talu :</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ffonio (01766) 771000 (Galw Gwynedd) rhwng 9:00yb a 5:00yh a gwneud taliad â Cherdyn Debyd neu Gredyd.</li> </ul>	<p><b>1. Non-refundable Fee</b> (i) £153.00 (per week)</p> <p><b>Payment Methods :</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>By telephoning (01766) 771000 (Galw Gwynedd) between 9:00am and 5:00pm and making payment with a Debit or Credit Card.</li> </ul>
<p><b>2. Rhaid i'r Ymgeisydd :</b></p> <p>(a) Gwblhau'r cais o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad dechrau gofynnol y drwydded.</p> <p>(b) Beidio â chodi'r cyfarpar ar y Briffordd hyd nes y derbynnir y drwydded.</p>	<p><b>2. The Applicant Must :</b></p> <p>(a) Complete the application at least 10 working days before the required commencement date of the licence.</p> <p>(b) Not erect the apparatus on the Highway until you have received the licence.</p>
<p><b>3.</b> Bydd yr ymgeisydd yn indennio Cyngor Gwynedd yn erbyn unrhyw atafaeliadau, gweithredoedd, achosion, hawliadau, gorchmynion, costau, iawndal a threuliau y gellir eu codi neu eu dwyn yn ei erbyn yn sgil unrhyw fater a allai godi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i'r caniatâd hwn.</p>	<p><b>3.</b> The applicant will indemnify Cyngor Gwynedd against any distresses, actions, proceedings, claims, demands, costs, damages and expenses which may be levied, brought or made against it by reason of any matter which may rise directly or indirectly as a result of this permission.</p>
<p><b>4.</b> Bydd yr ymgeisydd yn atebol am unrhyw ddifrod i strwythur y briffordd a/neu i gyfarpar yr Ymgymwr Statudol o ganlyniad i osod y cyfarpar ar y briffordd a bydd yn gyfrifol am ad-dalu Cyngor Gwynedd neu ei Asiant am wir gostau atgyweirio unrhyw ddifrod.</p>	<p><b>4.</b> The applicant will be held liable for any damage to the highway structure and/or Statutory Undertakers apparatus resulting from erecting the apparatus on the highway and will be responsible for reimbursing Cyngor Gwynedd or its Agent for the actual costs of making good any damage.</p>
<p><b>5.</b> Bydd yr ymgeisydd yn cwblhau'r gwaith ac yn cael gwared ar y cyfarpar cyn gynted â phosib. Ni chaiff unrhyw gyfarpar aros ar y briffordd ar ôl y cyfnod a nodir ar y drwydded.</p>	<p><b>5.</b> The applicant will complete the work and remove the apparatus as expeditiously as possible. No apparatus shall remain on the highway after the period specified on the licence.</p>
<p><b>6.</b> Rhaid cydymffurfio â'r amodau safonol. Os na chydymffurfir, gall yr awdurdod priffyrdd ofyn i berchennog y cyfarpar ei dynnu i lawr neu ei ail-leoli neu beri iddo gael ei dynnu i lawr neu ei ail-leoli. Gellir adennill unrhyw gostau rhesymol sy'n gysylltiedig â symud neu ail-leoli'r cyfarpar, gan berchennog y cyfarpar.</p>	<p><b>6.</b> The standard conditions must be complied with if not, then the highway authority may require the owner of the apparatus to remove or reposition it or cause it to be removed or repositioned. Any expenses reasonably incurred in the removal or repositioning of the apparatus may be recovered from the owner of the apparatus.</p>
<p><b>7.</b> Os bydd y Cyngor yn gwrthod rhoi trwydded neu yn caniatáu trwydded gydag amodau y mae'r ymgeisydd yn anghytuno â hwy, caiff yr ymgeisydd gyflwyno apêl i'r Llys Ynadon lleol yn erbyn y gwrthodiad neu'r amodau.</p>	<p><b>7.</b> If the Council refuses to issue a licence or issues a licence on conditions to which the applicant objects, the applicant may appeal to the local Magistrates Court against the refusal or the conditions.</p>
<p><b>8.</b> Ni all unrhyw berson osod neu roi unrhyw drawst uwchben, rheilen, cebl, weiren neu gyfarpar arall , dros, neu ar hyd neu ar draws priffordd heb ganiatâd ysgrifenedig gan yr Awdurdod Priffyrdd. Lle rhoddir caniatâd, gall yr Awdurdod Priffyrdd wneud y caniatâd yn ddarostyngedig i delerau ac amodau rhesymol.</p>	<p><b>8</b> No person may fix or place any overhead beam, rail, cable, wire or other apparatus as the case may be, over, or along or across a highway without the written consent of the Highway Authority. Where consent is given, the Highway Authority may make such consent subject to reasonable terms and conditions.</p>
<p><b>9.</b> Os bydd person yn gweithredu'n groes pan na roddir caniatâd neu'n gweithredu'n groes i delerau ac amodau caniatâd, bydd y person hwnnw'n euog o drosedd ac yn agored i ddirwy sydd ddim mwy na Lefel 1 ar y Raddfa Safonol. Os bydd y drosedd yn cario ymlaen wedi'r euogfarn, bydd y person yn euog o drosedd bellach ac yn agored i ddirwy sydd ddim mwy na £1 am bob dydd pan fo'r drosedd yn parhau.</p>	<p><b>9</b> If a person contravenes a refusal of consent or the terms and conditions of a consent, he is guilty of an offence and liable to a fine not exceeding Level 1 on the Standard Scale. If the offence is continued after conviction, he is guilty of a further offence and liable to a fine not exceeding £1 for each day on which the offence is continued.</p>
<p><b>10.</b> Pan fo angen i swyddog o'r Awdurdod Priffyrdd gynnal ymchwiliad ymlaen llaw cyn y gellir ystyried rhoi caniatâd, gall cael mynediad i'r tir neu'r eiddo dan sylw fod yn ddarostyngedig i Adran 294 Deddf 1980, h.y. mynediad ac ati i eiddo er dibenion yr Awdurdod Priffyrdd. Os gwrthodir mynediad, gellir cyflwyno hysbysiad ffurfiol dan Adran 294 a chwyno i'r Llys Ynadon.</p>	<p><b>10</b> Where prior investigation by an officer of the Highway Authority is required before the possible grant of consent, access to the land or premises in question can be subject to the provision of Section 294 of the 1980 Act, i.e. entry etc. of premises by Highway Authority purposes. If access is denied then a formal notice under Section 294 can be issued and a complaint to the Magistrates Court.</p>

<p><b>11.</b> Cyflwynir cais ysgrifenedig sy'n cynnwys cynlluniau lleoliad a darluniau yn nodi manylion y cyfarpar i'w osod i'r Awdurdod Prifffyrdd, o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y mae unrhyw waith gosod cyfarpar i fynd rhagddo.</p>	<p><b>11</b> A written application complete with location plans and drawings detailing the apparatus to be erected shall be made to the Highway Authority a minimum of 10 working days prior to any erection work is due to commence.</p>
<p><b>12.</b> Rhaid i'r sawl sy'n gosod y cyfarpar gael tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus sy'n indemnio'r Awdurdod Prifffyrdd rhag unrhyw hawliad trydydd parti sy'n ymwneud â gosod, cynnal a chadw a thynnu'r cyfarpar i lawr ac unrhyw ddifrod i eiddo'r Cyngor. Bydd angen lefel indemniad o leiafswm o £10 miliwn. Dylid anfon copi o'r dystysgrif yswiriant i'r adran Gwaith Stryd ar yr un pryd â'r ffurflen gais.</p>	<p><b>12</b> The installer must obtain a certificate of Public Liability Insurance indemnifying the Highway Authority against any third party claims related to the installation, maintenance and removal of the equipment and any damage to Council property. The level of indemnity required shall be a minimum of £10 million. A copy of the insurance certificate should be forwarded to the Streetworks department at the same time as the application form.</p>
<p><b>13.</b> Bydd isafswm cliriad unrhyw oleuadau Gŵyl neu Addurniadol sy'n cael eu gosod uwchben y briffordd yn cydymffurfio â Rhan V y Rheoliadau Diogelwch, Ansawdd a Pharhad Trydan (Offeryn Statudol 2002 Rhif 2665 fel y'i diwygiwyd) (5.8m-2007 ar hyn o bryd).</p>	<p><b>13</b> The minimum clearance of any permissible Festive or Decorative illuminations above the highway shall conform to Part V of the Electricity Safety, Quality and Continuity Regulations (Statutory Instrument 2002 No 2665 as amended) (currently 5.8m-2007)</p>
<p><b>14.</b> Rhaid gosod offer a'i dynnu i lawr o fewn cyfnodau amser i'w cytuno â'r adran Gwaith Stryd, a bydd cytundeb o'r fath wedi'i gwblhau cyn i unrhyw waith gael ei wneud.</p>	<p><b>14</b> Equipment must be erected and removed within periods to be agreed with the Streetworks department, such agreement being obtained prior to any works being undertaken.</p>
<p><b>15.</b> Bydd unrhyw ddifrod a achosir i eiddo'r Awdurdod Prifffyrdd yn sgil gosod, cynnal a chadw a thynnu'r offer i lawr, yn cael ei drwsio gan yr Awdurdod Prifffyrdd ac fe ail-godir cost y gwaith ar y gosodwr.</p>	<p><b>15</b> Any damage caused to the Highway Authority property by the installation, maintenance and removal of the equipment, will be repaired by the Highway Authority and the cost recharged to the installer.</p>
<p><b>16.</b> Rhaid i'r gosodwr, ar ei gost ei hun, gynnal a chadw'r offer mewn cyflwr da yn ystod y gwaith o'i osod a'i weithredu hyd nes y bydd yr offer yn cael ei dynnu i lawr.</p>	<p><b>16</b> The installer at their own expense must maintain the equipment in good repair during installation and operation until the equipment is removed.</p>
<p><b>17.</b> Rhaid i'r gosodwr dynnu ei offer i lawr ar unwaith ac ar ei gost ei hun, os bydd yr adran Gwaith Stryd yn gofyn iddo wneud hynny.</p>	<p><b>17</b> The installer must remove their equipment at their own expense immediately, if requested to do so by the Streetworks department.</p>
<p><b>18.</b> Mae gan yr Awdurdod Prifffyrdd yr hawl i dynnu rhan o'r offer, neu'r holl offer, i lawr os ydyw'n annigel neu'n beryglus i'r cyhoedd. Gellir ail-godi cost y gwaith hwn ar y gosodwr.</p>	<p><b>18</b> The Highway Authority has the right to remove any or all equipment which is unsafe or dangerous to the public. The cost of this work is rechargeable to the installer.</p>
<p><b>19.</b> Rhaid i'r gosodwr sicrhau bod yr holl waith gosod, cynnal a chadw a thynnu i lawr yn cael ei wneud yn ddiogel. Rhaid i'r gosodwr ymgynghori â'r Awdurdod Prifffyrdd ynghylch y dull a'r amser gosod, cynnal a chadw a thynnu i lawr.</p>	<p><b>19</b> The installer must ensure that all installation, maintenance and removal works are carried out in a safe manner. The installer must consult with the Highway Authority regarding the method and time of installation, maintenance and removal.</p>
<p><b>20.</b> Rhaid i'r gosodwr roi ystyriaeth ddyledus i Bennod 8 y Llawlyfr Arwyddion Traffig wrth gynllunio a gwneud gwaith ar y briffordd sydd ar agor i draffig a/neu cerddwyr. Rhaid i'r gosodwr ddarparu a chynnal conau, arwyddion dwyieithog, rhwystrau a mesurau rheoli cerbydau/cerddwyr fel bo'r angen i sicrhau diogelwch y cyhoedd wrth osod, cynnal a chadw neu dynnu cyfarpar i lawr.</p>	<p><b>20</b> The installer must take due regard to Chapter 8 of the Traffic Signs Manual when planning and undertaking work on the highway open to traffic and/or pedestrians. The installer must provide and maintain cones, bi-lingual signs, barriers and vehicle/pedestrian control necessary to ensure the safety of the public whilst installing, maintaining or removing apparatus.</p>
<p><b>21.</b> Rhaid i bob teclyn angori, bracedi, clipiau, atodiadau ac ati, eu cynhyrchu o ddeunydd anghyrydol (e.e. dur galfanedig neu ddur gwrthstaen) a bydd o faint a chryfder digonol i gefnogi'r cyfarpar yn ddiogel pan fo'n agored i bwysedd y gwynt a'r dosbarthiadau dinoethiad a nodir yn BS.5649, rhan 6.</p>	<p><b>21</b> All anchorages, brackets, clips, attachments, etc. are to be manufactured from non-corrosive material (e.g galvanised steel or stainless steel) and shall be of sufficient size and strength to support the equipment safely when subjected to a wind pressure and exposure class as prescribed in BS. 5649 part 6.</p>
<p><b>22.</b> Lle rhoddir caniatâd i osod y cyfarpar yn barhaol, bydd pob pwynt angori yn cael ei archwilio a'i brofi gan sefydliad profi cyfrifol bob blwyddyn. Rhaid cyflwyno copiâu o'r holl dystysgrifau profi i'r adran Gwaith Stryd o fewn 14 diwrnod o'r gwaith profi. Ni fydd y llwythau ar bwyntiau angori neu ffitiadau eraill yn fwy na'r llwythau gweithio diogel ar dystiedig ym mhob safle unigol.</p>	<p><b>22</b> Where permission is granted for the installation of the equipment on a permanent basis, all anchorage points shall be inspected and tested by a reputable testing organisation on an annual basis. Copies of all test certificates must be submitted to the Streetworks department within 14 days of testing. Loads on anchorages or other fixings shall not exceed the certified safe working loads at each individual site.</p>

<p><b>23.</b> Pan fo goleuadau Gŵyl neu addurniadol yn cael eu gosod, rhaid i'r gosodwr gydymffurfio â'r gofynion ychwanegol sydd wedi'u nodi yng Nghod Ymarfer yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer gosod a chynnal a chadw Goleuadau Gŵyl neu Addurniadol ar neu uwchben y Briffordd.</p>	<p><b>23</b> Where the installation is of festive or decorative lighting, the installer must comply with the additional requirements set out in the Highway Authority's Code of Practice for the installation and maintenance of Festive or Decorative Lighting in or above the Highway.</p>
<p><b>24.</b> Mae unrhyw berson neu sefydliad sy'n codi neu'n gosod addurniadau tymhorol ar neu uwchben y briffordd heb gael caniatâd dan Adran 178 Deddf Priffyrdd 1980, yn cyflawni trosedd ac fe all fod yn agored i erlyniad gan yr Awdurdod Priffyrdd.</p>	<p><b>24</b> Any person or organisation erecting or installing seasonal decorations on or above the highway without consent under Section 178 of the Highways Act 1980 is committing an offence and may be liable to prosecution by the Highway Authority.</p>
<p><b>25.</b> Dylid gosod unrhyw addurniadau/baneri/fflagiau neu gyfarpar a godir dros y briffordd sydd ar agor i draffig cerbydol ar uchder o 5.8m fan leiaf, oni bai y deuir i gytundeb ysgrifenedig fel arall â'r Awdurdod Priffyrdd.</p>	<p><b>25</b> The minimum height for any decorations/ banners/ bunting /flags or apparatus erected over the highway open to vehicular traffic should be 5.8m unless otherwise agreed in writing by the Highway Authority.</p>
<p><b>Nodyn / Note</b></p>	
<p>Tynnir sylw'r ymgeisydd at Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Rheoliadau Adeiladu (Lleoedd Gweithio) 1996 (OS 1966 Rhif 94) ac Adran 168 a 169 Deddf Priffyrdd 1980.</p>	<p>The applicants attention is drawn to the Health &amp; Safety at Work Act 1974, the construction (Working Places) Regulations 1996 (SI 1966 No 94) and Sections 168 and 169 of the Highways Act 1980.</p>
<p><b>Datganiad / Declaration</b></p>	
<p>Wrth roi tic yn y blwch cytunaf/cytunwn i lynu wrth yr holl amodau safonol yn ogystal â'r amodau penodol ar gyfer y safle fel y manylir ar y drwydded.</p>	<p style="text-align: center;"> <input data-bbox="767 842 834 909" type="checkbox"/> </p> <p><i>By placing a tick in the box I/we agree to abide by all the standard conditions as well as the site specific conditions as detailed on the licence.</i></p>

Dylid anfon y ffurflen gyflawn a'r dogfennau angenrheidiol yn electronig at  
 / The completed form and necessary documents should be sent electronically to:  
[gwaithstryd@gwynedd.llyw.cymru](mailto:gwaithstryd@gwynedd.llyw.cymru) / [streetworks@gwynedd.llyw.cymru](mailto:streetworks@gwynedd.llyw.cymru)